**ELL 07-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 24 Ebrill 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh, Dirprwy Weinidog | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ymddiheuriadau (ail hanner y cyfarfod)**

Cynog Dafis

Alun Pugh

Jonathan Morgan

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Keith Davies | Pennaeth, Yr Adran Safonau a Pherfformiad |
| Mike Harper | Pennaeth, Yr Adran Addysgu ac Arweinyddiaeth |
| Sue Lovell | Yr Adran Addysgu ac Arweinyddiaeth |
| Tony Widdrington | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Catrin Redknap | Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar yr iaith Gymraeg mewn Addysg |

| | |
|---|---|
| Edwyn Williams | Ysgrifennydd Cyffredinol, UCAC |
| Julia Burns | Llywydd Cenedlaethol, UCAC |
| Mair Heulyn | Aelod, UCAC |
| Dr Cen Williams | Swyddog Addysgu a Datblygu Cyfrwng Cymraeg, Bwrdd y Brifysgol dros Addysgu Cyfrwng Cymraeg |
| Professor Wynn Thomas | Aelod Bwrdd, Bwrdd y Brifysgol dros Addysgu Cyfrwng Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | |
| Susan Lewis | Prif Arolygwr Cymru Ei Mawrhydi, Estyn |
| Liz Kidd | Pennaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, Estyn |
| Ann Keane | Yn rheoli gwaith AEM: Yr Iaith Gymraeg, Dwyieithrwydd ac Addysg Bellach |
| | |
| John Andrews | Cadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| Gary Brace | Prif Weithredwr, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; ei g^wr yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Fwrdd Gwaith NATFHE |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig. Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cofrestredig; ei wraig yn Bennaeth, Arolygydd Ysgolion, aelod o bwyllgor ACCAC a phwyllgor Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwraig Ysgol |
| Alun Pugh | Ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau a oedd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant. Hysbysodd Jonathan Morgan y Cadeirydd ei fod ef yn llywodraethwr ysgol.
2. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon iddo fod yn aelod o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, fel ag y gwnaeth y Cadeirydd blaenorol. Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon.
3. Diolchwyd i'r aelodau am fynychu'r sesiwn seiadu ar yr adolygiad polisi y byddai'r Pwyllgor yn ei gynnal maes o law ar Ysgol y Dyfodol. Yr oedd yr aelodau i gysylltu â'r Clerc pe bai ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach. Byddai'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad yn eitem ar yr agenda yn y dyfodol agos.

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 06-02(t.1)***

1.1 Rhoddodd y Gweinidog grynodeb byr o brif bwyntiau ei hadroddiad. Diolchodd y Cadeirydd i’r Gweinidog am ei hadroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan yr aelodau.

1.2 Cododd yr aelodau'r materion canlynol:

- **Y Mesur Addysg Newydd –** Yr oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod yr amserlen debygol ac i ba raddau y byddai'r Mesur yn cynnwys pwerau galluogi, gan drosglwyddo rhagor o reolaeth, i bob pwrpas, i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr oedd yr aelodau yn awyddus iawn i'r Mesur sicrhau bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ragor o hyblygrwydd ym meysydd ailstrwythuro sefydliadau addysg a hyfforddiant, nawdd, mwy o bosibilrwydd ar gyfer rhannu swyddi, amodau a chyflogau athrawon a gweithredu Adroddiad Rees ar gefnogi myfyrwyr. Nododd y Gweinidog y sylwadau hyn a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd y pwerau dros amodau a chyflogau athrawon wedi eu datganoli i'r Cynulliad, ac nad oedd hi'n awyddus iddynt fod ychwaith. Dywedodd y Gweinidog nad oedd undebau'r athrawon yn cefnogi'r galw am system ar wahân ar gyfer amodau a chyflogau athrawon yng Nghymru. O safbwynt adroddiad Rees, dywedodd y Gweinidog fod ei swyddogion yn dal i baratoi dadansoddiad a chyngor a'i bod, felly, yn rhy fuan i ddamcaniaethu ynghylch beth, o bosib, a gynhwysir yn y Mesur. Yr oedd y Gweinidog yn gefnogol i ragor o swyddi gael eu rhannu ym myd addysg a hyfforddiant a dywedodd ei bod wedi gofyn i'w swyddogion archwilio'r mater hwn, gyda golwg ar baratoi cynigion i ymgynghori arnynt. Dywedodd y Gweinidog fod hwn yn gais am Fesur Addysg i Gymru i gael ei gynnwys yn y rhaglen deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan. Byddai'n gorfod cystadlu yn erbyn ceisiadau eraill o'r DU ac, felly, nad oedd amserlen eto. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi eisiau i gymaint â phosib o bwerau gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad ond yr hoffai gael digon o hyblygrwydd i fwrw agenda'r Wlad sy'n Dysgu yn ei blaen.

- **Cau'r Bwlch** – Cyfeiriodd yr aelodau at yr adroddiadau yn wasg am yr arolwg a wnaed gan NASUWT (un o undebau'r athrawon), a honnai y ceir anfodlonrwydd cyffredin yn y proffesiwn addysgu. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi mynychu cynhadledd yr NASUWT yng Nghaerdydd yn gynharach y diwrnod hwnnw a dywedodd nad oedd hi'n cytuno gydag adroddiadau'r wasg. Dangosodd arolwg yr undeb fod oddeutu 70% o'r athrawon yn fodlon gyda'u swydd a'u bod, ar y cyfan, yn cefnogi polisïau addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunai'r Gweinidog i ddod ag adroddiad terfynol y Grwp Gorchwyl i'r pwyllgor, unwaith y byddai Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol wedi'i gymeradwyo.

- **AG a Chwaraeon Ysgol** – Croesawodd yr aelodau'r ffaith fod y Gweinidog yn gweithredu prif argymhellion adroddiad y gr^wp gorchwyl (Cynllun Gweithredu i Gymru). Gofynnodd yr aelodau pa bryd y byddai nawdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd (GCN) ar gael a hefyd, codasant y mater o gysylltu'r cynlluniau chwaraeon ysgol gyda thestunau cysylltiedig, megis bwyta'n iach. Atebodd y Gweinidog nad oedd ganddi'r amserlen manwl i law o sut y fyddai'r GCN yn dosbarthu'r £48 miliwn yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. Cytunodd y Gweinidog y dylid cydlynu cynlluniau addysg a iechyd cysylltiedig yn well mewn ysgolion a dywedodd ei bod yn trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt AC).

- **Partneriaeth y Sector Gwirfoddol –** Diolchodd yr aelodau i'r Gweinidog am roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a chodasant y mater o sut y gellid cynnwys dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm ysgol. Atebodd y Gweinidog ei bod wedi sefydlu gr^wp gorchwyl, a gynhwysai swyddogion a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, i gynghori ynghylch y mater hwn. Dywedodd y Gweinidog fod y gr^wp gorchwyl wedi cyfarfod sawl gwaith ac yr oedd i fod i adrodd iddi yn ddiweddarach eleni. Cytunodd y Gweinidog i adrodd ar y mater hwn gerbron y pwyllgor maes o law.

- **TGCh –** Nododd yr aelodau y derbyniwyd tendrau i sefydlu'r Tasglu TGCh a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru, yn unol â'r argymhellion yn adroddiad adolygiad polisi'r pwyllgor ar TGCh mewn Addysg. Gofynnodd yr aelodau a oedd y Gweinidog yn bwriadu adrodd am ganlyniad y broses dendro hon cyn toriad yr haf. Gofynnodd yr aelodau hefyd am esboniad am hyd nawdd y GCN ar gyfer hyfforddiant TGCh i athrawon. Gwahoddodd y Gweinidog y Dirprwy Weinidog (Alun Pugh AC) i ymateb, gan fod hwn yn fater yr oedd ganddo ef gyfrifoldeb arbennig drosto fel cadeirydd Panel Ymgynghori TGCh a fyddai'n arwain gwaith y Tasglu a thîm NGfl Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog bod is-grwp o'r Panel Ymgynghori wedi derbyn cyflwyniadau o dendrau yn barod a bod arfarniad manwl pellach nawr yn cymryd lle. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Tasglu a thim NGfl Cymru yn paratoi cynllun gweithredu i'r Panel Ymgynghorol ar TGCh ei ystyried ac y câi hwn ei gyflwyno gerbron y pwyllgor, maes o law. Dywedodd Keith Davies, un o'r uwch swyddogion, fod nawdd y GCN ar gyfer hyfforddiant TGCh i athrawon wedi bod ar gael am gyfnod o dair blynedd ond ei fod bellach wedi dod i ben ac ei fod wedi'i clustnodi i ysgolion . Er hynny, gallai GCN, hyfforddiant TGCh tan Mawrth 2003. Dywedodd Mr Davies y byddai'r Gweinidog yn debygol o barahau i wneud nawdd Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) ar gael i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion ar gyfer hyfforddiant o'r fath yn y dyfodol.

- **Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH) –** Holodd yr aelodau bwy a fyddai'n gyfrifol am fonitro'r cynllun hwn a mynegasant beth pryder y byddai'r gofynion gorfodol yn codi ofn ar rai athrawon rhag gwneud cais i fod yn benaethiaid. Gofynnodd yr aelodau i'r Gweinidog sicrhau y dylai'r hyfforddiant roi ystyriaeth i dair prif thema'r Cynulliad; cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol. O ran cyfle cyfartal, tynnodd rhai aelodau sylw at yr anghydbwysedd rhywiau rhwng athrawon dosbarth (menywod yn bennaf) a phenaethiaid (dynion yn bennaf). Cyfeiriodd yr aelodau at y Coleg Arweinyddiaeth presennol yn Lloegr a gofynasant a fyddai hwn yn dal i ddarparu ar gyfer athrawon o Gymru, neu a fyddai trefniadau newydd mewn grym. Dywedodd y Gweinidog y byddai swyddogion o'i Hadran yn monitro'r cynllun. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r hyfforddiant yn ystyried y materion a godwyd ac y câi sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) chwarae rhan amlwg. Dywedodd y Gweinidog y byddai rhai o'r rhaglenni hyfforddiant yn benodol i Gymru ond y byddai athrawon o Gymru yn dal i allu mynychu cyrsiau yn y Coleg Arweinyddiaeth yn Lloegr.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg**

***Papurau: ELL 07-02(t.2), (t.3) & (t.4)***

2.1 Rhoddodd Mair Heulyn, Athrawes Fro a leolir mewn canolfan iaith yng Ngheredigion, gyflwyniad llafar byr ar ei phrofiadau fel Athrawes Fro. Tynnodd sylw at y materion canlynol:

- Bu'n gweithio mewn canolfan iaith i hwyr-ddyfodiaid am wyth mlynedd.

- Byddai'r plant yn mynychu'r ganolfan am ddau ddiwrnod bob wythnos am ddau dymor a hanner. Teimlwyd ei bod o fwy o fudd i'r plant fynychu'r ganolfan iaith am dymor cyfan.
- Ar hyn o bryd, byddai disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sylweddoli bod newydd-ddyfodiaid yn methu â siarad Cymraeg, felly byddent yn siarad Saesneg fel mater o gwrteisi. Serch hynny, byddai patrwm anffafriol o beidio â siarad yn Gymraeg yn dilyn.
- Roedd yna rai straeon am lwyddiannau o safbwynt canolfannau iaith ond teimlwyd y gellid ehangu'r ddarpariaeth.
- Dywedodd Mair Heulyn wrth y Pwyllgor ei bod hi, fel athrawes deithiol, wedi gweithio mewn saith ysgol yng Ngheredigion. Gallasai fod o fantais cael dau athro yn arwain yn y dosbarth ar yr un pryd, gan y gallai plant ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg a chael eu goruchwylio'n agos a'u hannog.
- Roedd angen cael rhagor o athrawon teithiol er mwyn i ddisgyblion gael sgiliau iaith Gymraeg o safon. Hefyd, yr oedd yn bwysig cynyddu'r cyfleoedd i bobl a siaradai Gymraeg ei defnyddio'n gymdeithasol, y tu hwnt i'r amgylchedd ysgol.
- Dylid hefyd ddarparu gwersi Cymraeg i rieni hwyr-ddyfodiaid er mwyn galluogi rhieni a phlant i ddysgu Cymraeg ar yr un pryd. Teimlwyd, pe byddai'r gwersi wedi bod yn rhad ac am ddim, yna byddai rhagor o bobl wedi dysgu Cymraeg dros amser.
- Byddai’n ddymunol cael Cymru lle byddai pawb yn cydnabod bod siarad dwy iaith yn dderbyniol.

2.2 Rhoddodd Julia Burns, athrawes o ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn Nwyrain Caerdydd ei safbwynt personol ei hun:

- Yr oedd hi wedi dysgu Cymraeg yn oedolyn ac yn awr yr oedd hi'n addysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol.
- Un broblem amlwg oedd y diffyg statws craidd a roddir i'r Gymraeg fel ail iaith, yn enwedig gyda TASau. Yn y sector uwchradd, yr oedd yn ddibynnol ar fympwy ysgolion unigol.
- Roedd disgyblion a gafodd y lleiaf posib o gysylltiad gyda'r Gymraeg yn llai tebygol o gynyddu a theimlo parch tuag at yr iaith.
- Ar hyn o bryd, yr oedd hi'n addysgu Cymraeg ail iaith TGAU gyda phedair awr wedi'u neilltuo bob pythefnos. Y llynedd, cyflawnwyd hyn gyda thair awr bob pythefnos. Teimlai hi y dylid neilltuo o leiaf pum awr ar gyfer pob pwnc.
- Yr oedd athrawon ail iaith yn addysgu pwnc academaidd iawn. Yr oedd ACCAC wedi cynyddu proffil y Gymraeg fel ail iaith a byddai hyn i'w weld o fis Medi ymlaen.
- Tueddai athrawon Cymraeg ail iaith fod â llwythi gwaith trwm iawn, gan fod yr ychydig oriau a roddir i'r Gymraeg yn golygu bod yn rhaid iddynt ysgwyddo pynciau eraill.
- Teimlai y byddai'n ddymunol dangos esiamplau o'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ymarferol i'r disgyblion, yn hytrach na'u dysgu sut i lamu drwy 'gylchoedd' er mwyn pasio arholiadau.

2.3 Esboniodd Edwyn Williams fod yn rhaid denu newydd-ddyfodiaid i’r sector addysgu cyfrwng Cymraeg. Pwysleisiodd wrth y Pwyllgor fod UCAC yn galw am gymhwyster Cymraeg TGAU Estynedig, gan fod yn rhaid darparu cyfleoedd i ymestyn disgyblion sy’n astudio’r Gymraeg fel ail iaith.

2.4 Siaradodd yr Athro Wynn Thomas a Dr Cen Williams, Bwrdd y Brifysgol dros Addysgu Cyfrwng Cymraeg o’u papur **ELL 07-02 (t.3)** gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

- Diweddarodd y papur yr hyn a gyflwynwyd i Adolygiad Polisi Addysg Uwch y Pwyllgor. Yr oedd yr addasiadau yn seiliedig ar ddwy thema: gostwng y lefelau staffio yn y Ganolfan ac ymestyn y cynlluniau doethuriaeth/ cymrodoriaeth.
- Paratowyd y cynnig/ papur diwygiedig ar gyfer y rhith-ganolfan mewn ymgynghoriad â’r rheini a oedd

â phrofiad yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg. Esboniwyd yn glir na ellid ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg heb sicrhau y defnyddid y ddarpariaeth bresennol.

- Yr oedd yn rhaid rhoi sylw ar frys i hyfforddi a recriwtio, gan fod oddeutu 40 y cant o'r athrawon cyfrwng Cymraeg mewn AU dros 50 mlwydd oed.
- Dros gyfnod o ddeng mlynedd, bwriedir cynnig 128 o gyfleoedd i ymchwilio, gan gynnwys doethuriaethau a chymrodoriaethau. Gellid cynyddu'r nawdd drwy'r arbedion ariannol a wneid drwy ostwng nifer y staff yn y Ganolfan. Byddai'r doethuriaethau yn helpu i gadw academyddion ifanc sy'n ymchwilio mewn addysg Gymraeg. Byddai'r cymrodorion yn gwasanaethu colegau hanner yr amser ac yn gwasanaethu'r sector yn genedlaethol (drwy lunio modylau) gweddill yr amser.
- Byddai'r Bwrdd yn cysylltu gyda'r Ganolfan Derminoleg ym Mangor a'r Bwrdd Astudiaethau Celtaidd.
- Cadarnhâi'r papur diwygiedig ELL 07-02(t.3) yr angen i gynllunio'n strategol ac i addysgu cyfrwng Cymraeg gael rôl ganolog yn y sector. Gobeithir y ceid cydweithrediad agos gydag ELWa-Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Prifysgol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.

2.5 Siaradodd Prif Arolygydd Estyn, Susan Williams, am ei phapur gan dynnu sylw at y materion allweddol a oedd yn ymwneud â'r sectorau addysg yng Nghymru. Dywedodd fod yr argymhellion a ddisgrifir yn y papur ELL 07-02(t.4) yn gofyn am adnoddau ychwanegol.

2.6 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i holi'r cyflwynwyr. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnodd yr aelodau a oedd myfyrwyr, a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd, yn teimlo nad oedd ganddynt y sgiliau a'r hyder i addysgu (eraill) drwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnodd Estyn sylw at y ffaith y cafwyd enghreifftiau o arfer da o bobl yn addysgu'n ddwyieithog, pobl nad oeddynt wedi gwneud hynny o'r blaen. Cafwyd rhai cyrsiau yn y gogledd orllewin lle'r hyfforddwyd athrawon i newid cyfrwng, h.y. rhwng y Saesneg a'r Gymraeg. Gellid lledaenu'r esiampl hon o arfer da ar lefel genedlaethol. Awgrymodd UCAC y gellid defnyddio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i helpu athrawon sy'n siarad Cymraeg ond nad oes ganddynt yr hyder i addysgu yn Gymraeg, i fagu mwy o hyder.

- Roedd yna ddiddordeb yn y manteision a geid drwy ryddhau athrawon o'r gweithle am gyfnod o oddeutu blwyddyn, i ddysgu iaith. Yr oedd cynllun tebyg yng Ngwlad y Basg wedi bod yn llwyddiannus. Holodd yr aelodau ba wahaniaeth y byddai cynllun fel hwn yn ei wneud i Gymru o safbwynt twf yr Iaith Gymraeg. Dywedodd Dr Cen Williams ei fod ef wedi cynnal cwrs saith wythnos llwyddiannus bob haf, am sawl blwyddyn. Cyfeiriodd yn gadarnhaol at gyfeiriad y Gweinidog at gynnig cyfnodau sabothol i ddysgu iaith i ymarferwyr yn y ddogfen, 'Cyrraedd yn Uwch: Strategaeth ar gyfer y Sector Addysg Uwch yng Nghymru'. Tynnodd sylw at y ffaith fod yna wahanol ofynion i'r sector cynradd a'r sector AU ond y byddai model Gwlad y Basg yn ddull gweithredu ymarferol i'r ysgolion.

- Mewn ymateb i gwestiwn am effeithiolrwydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Awdurdodau Addysg Lleol wrth gynllunio'n strategol ar gyfer yr Iaith Gymraeg, atebodd UCAC fod hwn yn faes a oedd yn peri pryder. Yr oedd AALlau, yn y gorffennol, wedi ymateb i bwysau gan rieni yn hytrach na'u bod yn cynllunio ar gyfer y galw disgwyliedig. Ceir rhai cynlluniau na chawsant eu bwrw ymlaen. Yr oedd angen cael corff i fonitro a sicrhau bod cynlluniau strategol o'r fath yn cael eu gweithredu.

- Cododd aelodau'r mater o hybu iaith gan ofyn, pe lluniwyd cyrsiau AU cyfrwng Cymraeg newydd, a ellid cynnwys y cysyniad o fenter. Atebodd y Bwrdd fod pobl ifanc yn cael eu cyfyngu, o safbwynt diwylliant menter, gan y ffaith nad oedd ganddynt sgiliau iaith. Yr oedd yn bwysig bod gan siaradwyr

Cymraeg dylanwadol y sgiliau iaith a'r hyder i'w defnyddio yn y meysydd arbenigedd a dylanwad priodol, gan gynnwys yn y sector busnes.

- Gwelwyd cryn ddiddordeb yn y cynnig y byddai cael gwared â'r cyfundrefnau profi yn gallu gwella'r gweithgareddau addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith. Cytunai cynrychiolwyr UCAC y rhoddwyd gormod o bwyslais ar brofion ac ychwanegasant y cawsant eu calonogi oherwydd y ffaith bod y Gweinidog wedi dileu'r profiad yng Nghyfnod Allweddol Un.

- Holodd y Gweinidog a gredai'r cyflwynwyr fod y modd y caiff ysgolion eu categoreiddio yn gymorth ynteu'n rhwystr o safbwynt symud tuag at Gymru ddwyieithog. Ymatebodd y Bwrdd y gallai categoreiddio ysgolion, mewn rhai achosion, fod yn rhwystr rhag datblygu a hyrwyddo dwyieithrwydd. Dylid ystyried ysgolion yng nghyd-destun y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Teimlwyd bod angen modelau dwyieithrwydd mwy hyblyg; yr oedd yna her i bob ysgol ddangos sut yr oedd wedi datblygu dwyieithrwydd. Atebodd UCAC ei fod yn dal i gredu y dylai ysgolion Categori 'A' aros i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ar lefel uwchradd, gan ei fod yn gyfle i ddisgyblion feithrin eu sgiliau.

- Gofynnodd y Gweinidog hefyd ba gamau y dylid eu cymryd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i hybu'r iaith Gymraeg drwy gyfrwng TGCh. Cytunai'r holl gyflwynwyr mai'r sector ôl-16 oedd y sector mwyaf addas ar gyfer defnyddio TGCh. Tynnodd UCAC sylw at y ffaith y gallai defnyddio technoleg hwyluso amrywiaeth mawr o gyrsiau. Teimlwyd y byddai'n rhaid i CCAHau gydweithredu mewn cynllun o'r fath. Tynnodd y Bwrdd sylw at yr angen i ddatblygu staff a defnyddio TGCh. Un enghraifft dda oedd 'Rhwydwaith Fideo Cymru' a leolwyd ym Mhrifysgol Abertawe. Byddai myfyrwyr hefyd yn elwa o hyfforddiant a fyddai'n eu galluogi i bori drwy'r Rhyngrwyd am wybodaeth benodol. Yr oedd yna berygl y gellid tybio bod cyrsiau TGCh yn unffurf a, thrwy hynny, wadu bodolaeth y cysyniad o'r system brifysgol a'r gwahaniaethau gwerthfawr sydd rhwng sefydliadau AU. Yr oedd cyswllt corfforol wyneb-wrth-wyneb yn gydran holl bwysig o addysgu. Tynnodd Estyn sylw at ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda yn y system AB. Enwyd Ynys Môn a'r ganolfan Sgiliaith yn esiamplau o arfer da.

- Mewn ymateb i bryder yr aelodau mai 2% yn unig o gyrsiau AB a ddilynwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, atebodd Estyn y ceir rhai esiamplau o arfer da o golegau AB yn llunio cynlluniau iaith, megis Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Pontypridd.

- O safbwynt y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal, pwysleisiodd Estyn y bylchau anferthol a geir mewn meysydd galwedigaethol, yn enwedig yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Yr oedd angen rhoi sylw i'r mater hwn ar lefel leol: asesu'r cyflenwad a'r galw a materion cyfrwng Cymraeg/dwyieithrwydd. Byddai Menter a Busnes yn asiant gwerthfawr i ymchwilio i wybodaeth am y farchnad lafur leol.

- Cododd yr aelodau'r mater o ysgolion yn cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau Cymraeg ail iaith a hwythau wedi sefyll arholiadau Cymraeg fel iaith gyntaf yn gynharach yn eu haddysg. Cyflwynodd un aelod y syniad o un papur arholiad a fyddai'n darparu ar gyfer y rheini a oedd yn ddysgwyr a'r rheini a oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Awgrymodd Estyn y syniad o dystysgrif TGAU dwbl a fyddai'n galluogi disgyblion i gyflawni'r cymhwyster uchaf. Yr oedd yn bwysig cynyddu ymwybyddiaeth ymysg rhieni, eu plant a'u hysgolion y byddai ymdrechion disgyblion yn cael eu tanseilio pe byddent yn sefyll arholiadau na fyddai'n ymestyn eu gallu.

- Cafwyd peth trafodaeth am y cysyniad o 'drawsieithu' a sut y gellid hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil

ynddi'i hun, yn fwy effeithiol yng Nghymru. Tynnodd Estyn sylw at y ffaith ei fod ar fin cyhoeddi papur newydd ar lythrennedd deuol. Yr oedd y cysyniad yn seiliedig ar ddisgyblion yn meithrin sgiliau soffistigedig i symud yn ddidrafferth o un iaith i'r llall. Cynhwysai'r papur astudiaethau achos a amlinellai broses y math hwn o ddysgu: byddai dealltwriaeth disgyblion o destun yn cael ei ddyfnhau drwy ei astudio drwy gyfrwng dwy iaith. Byddai'r ddwy iaith yn ymddangos yn ieithoedd 'real'.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr awgrymu beth, yn eu tyb hwy, oedd yr ystyriaethau allweddol ar gyfer twf addysg a hyfforddiant dwyieithog. Awgrymodd Estyn dri mater allweddol. Yn gyntaf, cynnal archwiliad o'r athrawon a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad oeddynt yn gwneud hynny. Yn ail, yr oedd angen continwwm o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Yr oedd yr adnoddau eisoes ar waith ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Yn olaf, yr oedd angen archwiliad o arfer da. Awgrymodd UCAC fod angen lledaenu'r arfer da yn well. Dylai ymgynghorwyr addysgol hefyd weithredu fel aseswyr ayb. Byddai'n rhaid i'r AALlau oll gydweithredu a byddai'n rhaid i athrawon ddefnyddio rhaglenni CPD. Esboniodd y Bwrdd, ar lefel AU, fod yr ethos cystadleuol yn milwrio yn erbyn y cysyniad o gydweithredu.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a fyddai'r gweithgor yn parhau. Dywedodd y Bwrdd na wnaed penderfyniad terfynol eto ond yr oedd aelodau'r gweithgor yn dymuno parhau â'u gwaith.

**Eitem Tri: Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) – Cynllun Corfforaethol 2002-2005**

***Papur: ELL 07-02(t.5)***

3.1. Siaradodd John Andrews a Gary Brace am eu papur. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ofyn cwestiynau. Codwyd y materion canlynol yn y trafodaethau:

- Gofynnodd yr aelodau i CACC amlinellu'r system o drefniadau disgyblu i athrawon a'r cam lle byddai'r CACC yn camu i mewn. Atebodd CACC mai ef a fyddai'n delio â'r mater o addasrwydd athrawon i gael eu cofrestru; llywodraethwyr ysgol a fyddai'n delio ag addasrwydd athrawon i gael eu cyflogi. Cyfeiriwyd achosion honedig o gamymddwyn proffesiynol drwy'r Cynulliad Cenedlaethol yna drwy'r Adran Addysg a Sgiliau, a'r adran hon a fyddai'n archwilio'r achos ac yn dal ei gafael ynddo pe byddai materion amddiffyn plant, anaddasrwydd meddygol i'w gweld. Byddai achosion yn ymwneud ag anghymhwyster proffesiynol honedig yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at CACC gan ysgol/corff llywodraethu AALl.

- Mewn ymateb i gwestiwn am a oes gan athrawon hawl cael cynrychiolaeth undeb drwy gydol proses trefn ddisgyblu, atebodd CACC bod hynny'n wir. Yr oedd undebau athrawon wedi bod yn gysylltiedig â hyfforddi aelodau'r Cyngor. Swyddogaeth yr undeb fyddai gweithredu i amddiffyn yr athro/ athrawes. Byddai'r CACC yn cyflawni swyddogaeth farnwrol – yn cadw golwg ar degwch y trefniadau.

- Holodd y Cadeirydd beth a fyddai'r drefn pe byddai deilydd swydd yn colli ei swydd ef/hi mewn ysgol. Atebodd y Cyngor y byddai ef yn camu i mewn ar ôl diswyddiad/ymddiswyddiad yr athro/athrawes, os mai camymddwyn neu anghymhwyster oedd achos y diswyddiad/ ymddiswyddiad.

- Gofynnwyd i'r Cyngor beth oedd y sefyllfa o safbwynt athrawon na ddyfarnwyd Statws Athro/ Athrawes Cymwys (SAC) iddynt. Dywedodd y Cyngor y ceir anghysondeb yn achos rhai athrawon a

gymhwysodd gyda chymhwyster Tystysgrif Addysg Bellach i Raddedigion (TABR) cyn 1974. Yn Lloegr, yr oedd y rheoliadau yn caniatáu iddynt ennill SAC tra na chaniatawyd iddynt wneud hynny yng Nghymru. Bu'n rhaid ailddosbarthu athrawon heb SAC yn hyfforddwyr. Yr oedd angen rheoliadau i gywiro'r sefyllfa. Dywedodd y Gweinidog fod y rheoliadau yn debygol o gael eu sefydlu eleni. Dywedodd y Cyngor ei fod wrth ei fodd gyda'r newyddion.

- Yr oedd ar yr aelodau eisiau sicrwydd y bydd Cyfle Cyfartal yn sylfaen i ethos y gwaith a wnaeth CACC ac y byddai'n treiddio trwy'r proffesiwn addysgu. Teimlwyd na chafwyd cynrychiolaeth deg o blith lleiafrifoedd ethnig a menywod, ar y cyfan, gan na chawsant lawer o gyfle i fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol. Sicrhaodd y Cyngor yr aelodau fod y cysyniad o Gyfle Cyfartal wedi'i blannu'n gadarn yn y ddogfen, 'Cod Ymddygiad Proffesiynol Athrawon' (Ionawr 2002). Yr oedd yn fan cychwyn sylfaenol ar gyfer egwyddorion yn ymwneud ag ymddygiad proffesiynol. Gofynnwyd i'r Cyngor pe cafwyd achos difrifol, mynych o dorri amodau Cyfle Cyfartal, a fyddai athrawon yn cael eu datgofrestru. Atebodd y Cyngor y byddai'r ysgol, y tro cyntaf, yn cyfeirio'r achos at y Cyngor ei hun ynghylch diswyddiad/ymddiswyddiad athro/athrawes.

- Cafwyd peth trafodaeth am lifau nawdd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Dywedodd y Cyngor y darparwyd ar gyfer anghenion yr ysgol gyfan ar hyn o bryd drwy GCAH. Cafodd anghenion athrawon unigol eu hesgeuluso ac, felly, yr oedd yn rhaid sefydlu peirianwaith ariannu priodol i roi sylw i athrawon unigol o safbwynt anghenion eu hysgolion. Amlinellodd y Gweinidog yr agwedd unigryw tuag at CPD, o ran ei fod yn gwasanaethu'r holl athrawon. Gellid defnyddio peirianweithiau ariannu eraill, megis rhaglenni a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Esboniodd y Cyngor fod llyfryn wedi cael ei gyflwyno i athrawon, fel rhan o brosiect peilot CPD, ac y rhestrwyd ynddo raglenni teithiau a theithiau cyfnewid rhyngwladol. Yna, gallai athrawon fynd ar drywydd eu ceisiadau mewn cydweithrediad â'u AALlau.

- Trafodwyd y pwysigrwydd o ddenu unigolion mwy aeddfed i'r proffesiwn, yn ogystal â phwysigrwydd y Cyfrifiad Arolwg o Ysgolion – a'r angen am wybodaeth amserol, flynyddol. Hefyd, cydnabuwyd yr angen i gynnal a chodi statws y proffesiwn. Cytunai'r Cyngor a'r Gweinidog na ddylid llwytho'r ysgolion gyda cheisiadau biwrocrataidd am wybodaeth. Awgrymwyd y gellir ychwanegu at y cyfrifiad ysgolion blynyddol amrywiaeth cyfyngedig o gwestiynau ychwanegol a allai amrywio'n flynyddol yn unol â pha wybodaeth a oedd yn ofynnol.

- Llongyfarchodd y Cadeirydd CCAC ar ei ymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf fel corff newydd a diolchodd i'r cyflwynwyr am eu negeseuon cadarnhaol.

**Eitem Pedwar: Ystyried adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor**

**Papur: ELL 07-02(t.6)**

4.1 Yn unol â rheol sefydlog 9.9, ystyriodd y pwyllgor ei adroddiad blynyddol drafft a gyflwynir gerbron Cyfarfod Llawn ym Mai er gwybodaeth. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau. Codwyd y materion canlynol:

- Dylai Adran 6.6 gynnwys cyfeiriad at benodi Catrin Redknap, fel Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor i'r adolygiad polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg.
- Adran 6.7: yn lle 'manteision dwyieithrwydd ac addysg' rhoi, 'manteision dwyieithrwydd mewn addysg'.

- Adran 8.4: dylai'r adroddiad nodi bod CACC eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth gerbron y Pwyllgor, yn hytrach nag, 'y bydd'.

4.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc wneud y trefniadau angenrheidiol.

**Eitem Pump: Ystyried y Blaenraglen Waith Strategol**

**Papur: ELL 07-02(t.7)**

5.1 Ystyriodd y pwyllgor ei flaenraglen waith strategol yn unol â rheol sefydlog 9.9. Copïwyd y rhaglen waith ar gyfer pwyllgorau pwnc eraill a'r Cabinet er mwyn cael eu sylwadau ond ni chafwyd dim.

5.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r pwyllgor am ei sylwadau. Codwyd y materion canlynol:

- Cyfeiriodd y Gweinidog at yr adran dan y teitl, '*Manylu ar y Gweinidog bryd hynny (SO 9.7(ii))':* cael gwared â'r geiriau, 'y mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu manylu ar,' a rhoi yn eu lle, 'yn benodol yng nghyswllt'.
- Teimlwyd y dylai'r Pwyllgor ADGO ddilyn gwaith adolygiad polisi'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal o Sipsiwn Teithiol, oherwydd y byddai'n delio â materion megis mynediad at addysg. Awgrymwyd efallai y byddai sesiwn pwyllgor ar y cyd yn addas. Dylid addasu ychydig ar y geiriad i ganiatáu ar gyfer cais o'r fath.

5.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc wneud y newidiadau angenrheidiol.

**Eitem Chwech: Cofnodion cyfarfod 20 Mawrth**

***Papur: ELL 06-02(mins)***

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cofnodion fel cofnod cywir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2002**